Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

‘Mesurau Arbennig’ AGIC Parthed yr Adolygiad Arbennig o Wasanaethau Mamolaeth Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Cyfarfod Misol, 27 Chwefror 2009
Yn Llanfrechfa Grange am 9.30am

COFNODION Y CYFARFOD

Yn bresennol: Peter Higson (Cadeirydd), Ivar Grey, Andrew Cottom, Carol Shillabeer, Patrick Coyle, Francis Jones, Jean Keats, Jenny Sanger, Lisa Howells, Wendy Warren, Grant Robinson a Mike Frost.

Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Marion Andrew-Evans ac Anju Kumar.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, ond nodwyd bod angen newid y ffordd y sillafwyd enw Mrs Kumar a bod angen nodi presenoldeb Wendy Warren yn y cyfarfod.

Materion yn Codi

Ni chodwyd unrhyw faterion.

Sylwadau ar yr adroddiadau a gyhoeddwyd ar 11/2/2009

Roedd y cynllun a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth, LlCC ac AGIC wedi’i weithredu. Roedd rhywrai wedi cysylltu â theuluoedd lle’r oedd mamau wedi marw ac mae’r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu pwynt cyswllt i drafod galwadau gan y cyhoedd. Nid oes neb wedi codi cwestiwn.

Cynllun Gweithredu’r Ymddiriedolaeth ar ôl cyhoeddi’r adroddiad

Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi paratoi cynllun bras mewn ymateb i argymhellion AGIC.

Cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gweithredu'r Ymddiriedolaeth

Yn y cyfarfod misol â'r Ymddiriedolaeth ar 27 Chwefror 2009 nodwyd y canlynol:

Bod yr Ymddiriedolaeth wedi llunio adroddiad ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu a gymeradwywyd ym Mai 2008 (copi wedi'i atodi).

Sylwadau AGIC ar y Cyflawni Hyd Yma

Roedd y cynnydd yn addawol, yn enwedig am fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflymu'r gwaith ar gamau gweithredu'n ymwneud â'r Bwrdd a'r Uwch Reolwyr a'r agweddau ar waith obstetryddion yr oedd angen eu datblygu.

Unrhyw Fater Arall

Dim.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

24 Mawrth 2009.